Pecyn Mathemateg Teulu

# Gweithgareddau Mathemateg i'r Teulu

## Blwyddyn 1

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

National Numeracy
Getting on with numbers

Ariannwyd y gwaith o gyfieithu a dylunio'r adnodd hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (Prosiect Lluosi).
Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Pecyn Mathemateg Teulu

1 2 3 4

## Rhagarweiniad

Nod yr adnodd teuluol hwn, sydd wedi'i brofi i fod yn gwella hyder plant a rhieni mewn mathemateg, yw hyrwyddo mwynhad o fathemateg drwy drafod a gweithio gyda'n gilydd ar fathemateg bob dydd.

Mae'r pecyn hwn gan National Numeracy yn cynnwys gweithgareddau byr, hwyliog ar sail 'bywyd go iawn' i deuluoedd eu gwneud gyda'u plant, gyda ffocws cryf ar ddatrys problemau a rhesymu.

Mae'n cynnwys 36 o weithgareddau. Yn y pecyn hwn, maen nhw wedi eu trefnu i fynd yn raddol anoddach – ond gellir eu dewis i gyd-fynd â'r maes cwricwlwm y mae eich plant yn gweithio arno.

Nid yw'r taflenni gweithgaredd unigol yn dangos grŵp blwyddyn nac oed, dim ond codau lliw fel y gallwch ddweud y gwahaniaeth. Dylid nodi bod y lefel yn seiliedig ar ddisgwyliadau cyfartalog ar gyfer y grŵp blwyddyn – gallai'r plant fod yn gweithio ar lefel is neu uwch, felly defnyddiwch weithgareddau o grwpiau blwyddyn eraill os oes angen.

Mae'r pecyn yn cynnwys:
- Trosolwg yn awgrymu sut y gallwch rannu'r gweithgareddau yn ôl tymor ysgol a phwnc rhifedd.
- 36 o weithgareddau, yn y drefn a roddir yn y trosolwg.
- 3 taflen atebion, un i bob tymor (cofiwch fod llawer o'r gweithgareddau wedi eu dylunio i fod yn benagored felly rhoddir atebion ond i weithgareddau sy'n gofyn am ateb).

## Ar gyfer ysgolion

Argymhellwn y dull canlynol i ysgolion sy'n defnyddio'r gweithgareddau:

- Dull dosbarth cyfan neu hyd yn oed ddull ysgol gyfan.
- Os yw'r plant yn gweithio'n uwch neu'n is na'r disgwyliadau ar gyfer eu hoed, dewiswch weithgaredd o grŵp blwyddyn arall.
- Cynnal gweithdy i fodelu trafodaethau'r gweithgareddau i rieni llai hyderus.
- Pwysleisio y gall unrhyw aelod o'r teulu weithio gyda'r plentyn ar y gweithgaredd.
- Os nad oes oedolion yn helpu allan yn y cartref, awgrymwn ddod o hyd i ffrind ysgol hŷn i helpu mewn clwb ar ôl ysgol neu gyn-ysgol.
- Nid oes raid i'r rhiant / gofalwr fod ag unrhyw wybodaeth arbennig am fathemateg neu offer ysgol.
- Annog y plant i fod yn greadigol: tynnu lluniau ffotograff, lluniau darlun, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau.
- Annog yr oedolyn a'r plentyn i ddefnyddio'r blwch sylwadau i fyfyrio a'ch helpu chi i ddeall beth y maen nhw'n ei feddwl o bob gweithgaredd.
- Arddangos gweithgareddau a gwblhawyd fel bo'r plant a'r teuluoedd yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd nad un ffordd yn unig sydd o ddatrys problem ond sawl ffordd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

Pecyn Mathemateg Teulu

1 2 3 4

## Ar gyfer rhieni a gofalwyr

Sut bynnag y teimlwch am fathemateg, gallwch wneud gwahaniaeth mawr i sut y mae plant yn dysgu rhifedd.

Mae'r dystiolaeth i gyd yn dangos bod siarad am fathemateg pob dydd yn magu hyder plant mewn mathemateg. Dyma rai cwestiynau y gallwch ofyn i'ch gilydd wrth wneud y gweithgareddau:

- Beth sydd angen ei wneud?
- Pa wybodaeth sydd gennym ni? Beth sydd angen ei ddarganfod?
- Fyddai offer yn helpu?
- Beth sylwch chi arno pan...?
- Ddylen ni ddyfalu'r ateb i weld?
- Beth allwn ei wneud os awn yn styc?
- Os byddwn yn gwneud hyn eto, a allen ni wneud rhywbeth yn wahanol?

Gallwch addasu'r gweithgareddau i ddiddordebau eich teulu a defnyddio unrhyw eitemau sydd wrth law, yn y cartref neu'r tu allan iddo.

Gallech dynnu lluniau ffotograff neu ddarluniau, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau – fyny i chi!

Defnyddiwch y sylwadau i fyfyrio ar eich trafodaethau a meddyliau wrth wneud y gweithgaredd gyda'ch gilydd.



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

# Trosolwg a Chysylltiadau Cwricwlwm Blwyddyn 1

Pecyn Mathemateg Teulu

| Tymor | Pwnc | Gweithgareddau | Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm | Hefyd yn trafod |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | **Rhif a gwerth lle** | Dod o hyd i rifau yn y tŷ | Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 20. | |
| | **Rhif –** adio a thynnu | Hwyl adio gyda mwncis | Datrys problemau un-cam sy'n golygu adio, yn defnyddio offer penodol a lluniau i gynrychioli pethau. | |
| | | Tynnu | Problemau ymarferol yn defnyddio tynnu. | Odrifau ac eilrifau; cyfrif bob yn 2. |
| | **Mesur** | Pwysau ffrwythau | Cymharu, disgrifio a datrys problemau ymarferol ar gyfer màs / pwysau. | |
| | | Mesurau | Defnyddio a chymharu mesurau, yn defnyddio unedau ansafonol. | |
| | | Arian | Adnabod a deall gwerth darnau o arian ac arian papur. | |
| | | Her feintiau | Cymharu hydoedd ac uchder / taldra'n defnyddio geirfa hir / hirach / byr / byrrach / tal / talach. | |
| | **Geometreg –** nodweddion siâp | Chwilio am siapiau yn y tŷ | Siapiau 2D yn cynnwys sgwâr, hirsgwar (neu betryal), triongl, cylch. | |
| | **Geometreg –** safle a chyfeiriad | Addurno coeden Nadolig | Iaith safleoedd, siapiau 2D. | |
| | **Datrys problemau** | Her tân gwyllt | Datrys problemau a gweithio'n systematig, dod o hyd i'r holl bosibiliadau. | Gwrando ar gyfarwyddiadau'n gywir. |

*Mae angen ei argraffu mewn lliw

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Trosolwg a Chysylltiadau Cwricwlwm Blwyddyn 1

Pecyn Mathemateg Teulu

| Tymor | Pwnc | Gweithgareddau | Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm | Hefyd yn trafod |
|---|---|---|---|---|
| **Gwanwyn** | **Rhif a gwerth lle** | Cyfrif | Cyfrif i ac ar draws 100; siarad am un yn fwy na, un yn llai na. | |
| | **Rhif** – adio a thynnu | Cywion adar<br><br>Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd | Adio bondiau rhif i 10; cyfrif bob yn 2.<br><br>Adio a thynnu bondiau rhif i 10, gan gynnwys sero. Datrys problemau geiriau un-cam, drwy adio, dyblu, cyfrif bob yn 2. | Problemau lluosi'n defnyddio offer materol.<br><br>Dyddiau'r wythnos |
| | **Mesur** | Mathemateg drwy straeon traddodiadol<br><br>Her defnyddio arian<br>Capasiti | Adnabod a deall gwerth darnau o arian.<br>Cymharu a disgrifio capasiti / cyfaint (llawn, gwag, mwy na, llai na, hanner, chwarter).<br>Trin a thrafod siapiau 3D cyffredin, eu henwi a'u cysylltu i eitemau pob dydd. Adnabod y siapiau hyn ar wahanol ogwydd ac mewn gwahanol feintiau. | |
| | **Geometreg** – nodweddion siâp | Dod o hyd i siapiau 3D | Adnabod ac enwi siapiau 2D a 3D cyffredin, eu cysylltu i eitemau pob dydd ar wahanol ogwydd ac mewn gwahanol feintiau. | |
| | **Geometreg** – safle a chyfeiriad | Siapiau ar y ffordd i'r ysgol | Creu, copïo ac ail-drefnu patrymau. | |
| | **Datrys problemau** | Patrymau wyau Pasg<br><br>Her gyrrwr trên | Datrys problemau drwy resymu a gweithio'n systematig, i ddod o hyd i'r holl bosibiliadau. | |



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Trosolwg a Chysylltiadau Cwricwlwm Blwyddyn 1

Pecyn Mathemateg Teulu

| Tymor | Pwnc | Gweithgareddau | Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm | Hefyd yn trafod |
|---|---|---|---|---|
| Haf | **Rhif a gwerth lle** | Cyflwyno'r faner | Cyfrif i ac ar draws 100: cyfrif pethau bob un 2; adnabod odrifau ac eilrifau. | |
| | **Rhif** – adio a thynnu | Cadw-mi-gei | Cyfrif bob yn 2, 5 a 10. | Adnabod darnau arian |
| | **Rhif –** lluosi a rhannu | Rhannu lolis | Drwy rannu meintiau bach, bydd y plentyn yn dechrau deall lluosi a rhannu. | |
| | **Rhif -** ffracsiynau | Rhannu picnic<br>Plygu papur | Adnabod, dod o hyd i ac enwi hanner fel un o ddwy ran gyfartal; adnabod bod dau chwarter yr un fath â hanner.<br>Adnabod a chyfuno haneri a chwarteri fel rhannau o un cyfan. | |
| | **Mesur** | Y dylwythen ddannedd<br>Wythnos Pero'r ci<br>Faint o'r gloch ydy hi? | Deall gwerth darnau o arian; adio i 20.<br>Rhoi digwyddiadau amser mewn trefn a gwybod beth yw dyddiau'r wythnos.<br>Defnyddio iaith amser ac adnabod oriau a hanner awr wedi. | |
| | **Geometreg** – safle a chyfeiriad | Cyfarwyddiadau<br>Cyfuniadau hufen iâ | Gwahaniaethu rhwng cylchdroi a throi (½ neu ¼) a symud mewn llinell syth.<br>Datrys problem fathemateg gan weithio'n systematig ac egluro eu rhesymu. | |

*Mae angen ei argraffu mewn lliw



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Her rhifau

Pecyn Mathemateg Teulu

### Oes gennych chi gloc yn eich tŷ?

Allwch chi ddarllen y rhifau i gyd?

Ble arall allwch chi weld rhifau?
Allwch chi ddod o hyd i rai ym mhob ystafell?
Pa rifau allwch chi ddod o hyd iddynt?
Edrychwch yn ofalus, bydd rhai o'r golwg efallai.

Ysgrifennwch rai o'r rhifau a welwch a thynnu llun beth y maen nhw arno.



12

9

8

10

11

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 20.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Hwyl adio gyda mwncis

Pecyn Mathemateg Teulu


**Mae mwncis yn chwarae yn y parc.**

**Mae gan bob mwnci 1 gynffon gyrliog; 1 trwyn gwlyb; 2 glust fach; 2 lygad bywiog a 4 coes.**

1. Mae 5 mwnci yn y parc – faint o drwynau gwlyb sydd?
2. Faint o glustiau bach? Faint o goesau?
3. Mae 5 mwnci'n chwarae pêl – faint o gynffonnau cyrliog?
4. Faint o lygaid bywiog?
5. Mae 2 fwnci'n mynd i lawr y llithren! Faint o goesau?

Allwch chi feddwl am fwy o gwestiynau (ac atebion!) am y mwncis yn y parc? Gallwch newid faint o fwncis sydd yno os dewiswch.

**Gair o gyngor:** Gall tynnu llun y mwncis helpu i weld y broses adio.



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau un-cam sy'n golygu adio, yn defnyddio offer materol a lluniau i gynrychioli pethau.


**Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk**


**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Her dynnu

Pecyn Mathemateg Teulu

**Dowch o hyd i un pâr o sanau ar gyfer pawb yn y tŷ.**



Faint o sanau sydd gennych i gyd?

Cuddiwch eich sanau eich hun. Faint sydd gennych rŵan?

Rhowch y sanau i gyd mewn rhes. Gofynnwch i rywun guddio rhai o'r sanau. Siaradwch am faint sydd ar ôl. Faint maen nhw wedi'i guddio, chi'n meddwl?

Rŵan tynnwch rai o'r sanau allan; faint sydd ar ôl?

Allwch chi gyfri'r sanau bob yn 2? (2, 4, 6 ac yn y blaen). Eilrifau yw'r rhain.

Beth os yw rhywun yn colli hosan?




**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Problemau ymarferol yn defnyddio tynnu, odrifau ac eilrifau'n cyfrif bob yn 2.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Pwysau ffrwythau

Pecyn Mathemateg Teulu

**Dowch o hyd i ffrwythau neu lysiau (fel afal neu daten, neu debyg).**



1. Dowch o hyd i 3 gwahanol rai – pa un fydd drymaf chi'n meddwl?
2. Rŵan daliwch nhw yn eich llaw, un ar y tro – oeddech chi'n iawn?
3. Allwch chi ddod o hyd i 3 pheth y credwch fydd yn ysgafnach na thaten?
4. Allwch chi ddod o hyd i 3 pheth trymach?
5. Dowch o hyd i'ch 5 hoff degan – allwch chi eu rhoi mewn trefn, o'r ysgafnaf i'r trymaf?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cymharu, disgrifio a datrys problemau ymarferol ar gyfer màs / pwysau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Mesurau

Pecyn Mathemateg Teulu


**Dewiswch 5 o'ch hoff deganau.**

Rhowch nhw mewn trefn o'r byrraf i'r talaf.
Oes unrhyw un yn hirach na hyd eich llaw?


Rŵan rhowch nhw mewn trefn, o'r ysgafnaf i'r trymaf.
Ydyn nhw yn yr un drefn?
Pa rai sydd mewn lle gwahanol?

Dowch o hyd i 5 peth yn y cwpwrdd bwyd.
Rhowch amcan o ba un fydd yr ysgafnaf a'r trymaf.
Teimlwch nhw yn eich dwylo – oeddech chi'n iawn?

**Her:** Beth yw'r bwyd ysgafnaf y gallwch ddod o hyd iddo?







**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Defnyddio a chymharu mesurau, yn defnyddio unedau ansafonol.



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Her arian

Pecyn Mathemateg Teulu

**Gofynnwch i oedolyn a allwch edrych ar rai o'r darnau arian yn eu pwrs neu eich cadw-mi-gei.**



1. Faint o wahanol ddarnau arian allwch chi weld?
2. Faint o ddarnau 10c sydd gennych?
3. Allwch chi roi'r darnau yn nhrefn maint neu eu grwpio i'r un lliwiau? Pa ddarnau arian sydd ddim yr un siâp â'r lleill?
4. Ceisiwch ymarfer ysgrifennu'r rhifau ar y darnau. A oes unrhyw rifau nad oes gennych ddarnau ar eu cyfer?
5. A oes unrhyw fath arall o arian heblaw darnau o arian?

Gallech roi'r darnau arian o dan y dudalen a gwneud lluniau rhwbio ohonynt.




**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adnabod a deall gwerth darnau o arian ac arian papur.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Her feintiau

Pecyn Mathemateg Teulu

**Allwch chi ddod o hyd i un pâr o sanau ar gyfer pawb yn y tŷ?**

Pwy sydd â'r pâr mwyaf? Pwy sydd â'r pâr lleiaf o sanau? Allwch chi eu rhoi mewn trefn o'r mwyaf i'r lleiaf? Gallwch wneud yr her hon gyda llawer o bethau eraill yn y tŷ. Gallech ddefnyddio traed, esgidiau, dwylo neu hetiau.

Beth arall welwch chi i'w rhoi mewn trefn maint? Allwch chi gofnodi beth a wnaethoch? Efallai tynnu llun neu dynnu ffotograff.





**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cymharu hydoedd ac uchder / taldra'n defnyddio geirfa hir / hirach / byr / byrrach / tal / talach.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Chwilio am siapiau yn y tŷ

Pecyn Mathemateg Teulu

**Gallwch fod yn dditectifs yn chwilio am siapiau sydd o'n cwmpas.**

1. Allwch chi ddod o hyd i sgwâr yn y gegin?
2. Allwch chi ddod o hyd i hirsgwar yn yr ystafell ymolchi?
3. Allwch chi ddod o hyd i gylch yn eich llofft?
4. Pa siapiau eraill welwch chi o gwmpas y tŷ? Allwch chi ddod o hyd i driongl yn y tŷ yn rhywle?
5. Allwch chi dynnu llun beth ddaethoch chi o hyd iddynt?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Siapiau 2D yn cynnwys sgwâr, hirsgwar (neu betryal), triongl, cylch.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Addurno coeden Nadolig

Pecyn Mathemateg Teulu

**Tynnwch lun coeden Nadolig blaen. Gofynnwch i un o'ch teulu ddarllen y cyfarwyddiadau i'w haddurno – bydd angen i chi wrando'n astud. Bydd angen creons neu bensiliau lliw arnoch.**



Tynnwch lun:

- Bwced coch o gwmpas bonyn (gwaelod) y goeden
- 3 addurn melyn crwn ar y goeden
- Seren ar ben y goeden
- Tedi-bêr brown wrth ymyl y goeden
- 4 siocled yng nghanol y goeden
- Anrheg sgwâr o flaen y goeden
- Addurn triongl coch rhwng y seren ac un o'r siocledi
- Bobyl glas yn agos i'r seren
- 2 angel ar ochr dde'r goeden

Gawsoch chi'r pethau i gyd yn y lle iawn? Rŵan gwnewch gyfarwyddiadau i un o'r teulu eu tynnu llun ar goeden arall.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Iaith safleoedd, siapiau 2D, gwrando ar gyfarwyddiadau'n gywir.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: **enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Her tân gwyllt

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mewn faint o wahanol ffyrdd allwch chi liwio'r rocedi, yn defnyddio'r un tri lliw bob tro?**



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau a gweithio'n systematig, dod o hyd i'r holl bosibiliadau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Her gyfrif

**Pecyn Mathemateg Teulu**



## Yr her am yr wythnos yw dod o hyd i wahanol gyfleoedd i gyfrif.

Gallech:

- Cyfrif faint o gyllyll a ffyrc sydd eu hangen i osod y bwrdd.
- Cyfrif faint o lythyrau sy’n cyrraedd drwy’r post mewn diwrnod / wythnos.
- Cyfrif faint o amser y mae’n cymryd i’r bath lenwi.
- Cyfrif faint o frwsiadau y mae’n ei gymryd i frwsio gwallt.

**Her:** Allwch chi feddwl am bethau eraill i’w cyfrif? Ddaethoch chi o hyd i rywbeth oedd yn agos i 100?

Ddaethoch chi o hyd i rywbeth oedd yn nifer rhy fawr i’w cyfrif?

Beth allech chi eu cyfrif gyda’i gilydd?



1 2 3

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cyfrif i ac ar draws 100; siarad am un yn fwy na, un yn llai na.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru’r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Cywion adar

Pecyn Mathemateg Teulu

**Yn y gwanwyn, mae'r deryn du fenyw'n bwydo ei chywion yn y nyth. Mae wedi cael tri chyw – un mawr, un canolig ac un bach.**

**Mae angen 5 pryf genwair y dydd ar yr un mawr.**

**Mae angen 3 pryf genwair y dydd ar yr un canolig.**



**Mae angen 2 pryf genwair y dydd ar yr un bach.**




Faint o bryfed genwair sy'n rhaid i'r fam ddod o hyd iddo?

**Her:** I wneud i'r cyw bach dyfu'n gynt, bydd yn rhoi mwy o bryfed genwair iddo – faint o ffyrdd gwahanol y gallai rannu 10 o bryfed genwair rhwng ei chywion?

**Gair o gyngor:** Tynnwch luniau o'r adar a defnyddiwch gownteri, cerrig neu debyg i gyfrif y 'pryfed genwair'. (Ac ymarfer cyfrif bob yn 2).





**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adio bondiau rhif i 10; cyfrif bob yn 2; problemau lluosi'n defnyddio offer materol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae gan bob Blwyddyn Newydd Tsieineaidd ei harwydd anifail ac mae 12 o rai gwahanol.**

Mae 7 yn rhif lwcus ar gyfer yr afr yn Tsieina. Allwch chi wneud y syms rhif yn yr afr?




Weithiau mae'n flwyddyn y mwnci – allwch chi dynnu llun mwnci a rhoi brawddegau rhif y tu mewn iddo?

**Her:** Anifail arall yw'r neidr – 4 yw rhif lwcus y neidr – allwch chi wneud i bob un o'ch brawddegau rhif gael 4 fel ateb?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adio a thynnu bondiau rhif i 10, gan gynnwys sero.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Mathemateg drwy straeon traddodiadol

Pecyn Mathemateg Teulu


**Mae gan lawer o straeon rifau ynddynt; gallwn eu defnyddio i ysgrifennu cwestiynau mathemateg.**

Dyma ddwy:

- Mae babi arth yn bwyta 5 bocs o uwd yr wythnos. Mae dadi arth yn bwyta dwbl hynny. Faint y mae dadi arth yn ei fwyta?
- Chwiliodd y Tywysog am Ela Ludw am bythefnos. Faint o ddiwrnodau yw hynny?

Beth yw eich hoff stori? Allech chi feddwl am gwestiwn mathemateg am y stori?





**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau geiriau un-cam, drwy adio, dyblu, diwrnodau mewn wythnos, cyfrif bob yn 2.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Her defnyddio arian

Pecyn Mathemateg Teulu

**Casglwch eitemau i'w gwerthu. Gallech greu siop deganau, archfarchnad neu siop esgidiau efallai. Yna bydd angen gwneud labeli prisiau.**

Dylai'r labeli fod hyd at 20c. Rŵan bydd angen arian i brynu'r eitemau. Defnyddiwch 1c, 2c, 5c, 10c ac 20c yn unig.

Penderfynwch pwy fydd yn geidwad y siop a phwy fydd y siopwr (gallwch newid rôl wedyn).

Ar ôl dod o hyd i bethau i'r siop, lluniwch hysbyseb ar gyfer y siop i ddangos beth sydd ar werth a'r prisiau.

Beth yw'r peth drytaf sydd ar werth?

A oes unrhyw gynigion arbennig?





**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adnabod a deall gwerth darnau o arian.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Her gapasiti

Pecyn Mathemateg Teulu

**Dowch o hyd i 3 cynhwysydd gwag.**

Faint o'r cynhwysydd lleiaf fyddai ei angen i lenwi'r cynhwysydd canol chi'n meddwl? Gallech ddefnyddio dŵr, pasta, reis neu dywod.

Oeddech hi'n iawn?

Rŵan faint o'r cynhwysydd canol fyddai'n llenwi'r cynhwysydd mwyaf?

**Gair o gyngor:** Trafodwch beth yw llawn, gwag, hanner llawn, llai na, mwy na, chwarter.



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cymharu a disgrifio capasiti / cyfaint (llawn, gwag, mwy na, llai na, hanner, chwarter).

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Dod o hyd i siapiau 3D


Pecyn Mathemateg Teulu

**Allwch chi ddod o hyd i bethau o gwmpas y tŷ sy'n 3D fel y rhain:**


1. Faint ddaethoch chi o hyd iddynt?
2. Ar gyfer beth y maen nhw'n cael eu defnyddio? Pam ei fod yn siâp da i'w ddefnyddio?
3. Beth y mae côn yn siâp da ar ei gyfer?
4. Mae un siâp 3D cyffredin heb fod yn y llun – allwch chi feddwl beth ydy o? Oes gennych chi un?




Ciwb




Prism triongl




Côn



Ciwboid



Silindr



Tetrahedron

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Trin a thrafod siapiau 3D cyffredin, eu henwi a'u cysylltu i eitemau pob dydd. Adnabod y siapiau hyn ar wahanol ogwydd ac mewn gwahanol feintiau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Patrymau wyau Pasg

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae gan Siwan 10 wy a 3 gwahanol ddarn o bapur lapio – glas, coch a melyn. Mae eisiau eu rhoi mewn blychau mewn llinellau sy'n gwneud patrymau.**

Allwch chi ei helpu i orffen y patrymau?



Wedyn, allwch chi feddwl am eich patrymau eich hun yn defnyddio llinellau o 10 wy a 3 lliw?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Creu, copïo ac ail-drefnu patrymau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Ar y ffordd i'r ysgol

Pecyn Mathemateg Teulu


**Ar eich ffordd i'r ysgol, chwiliwch am siapiau o'ch cwmpas – cylchoedd, hirsgwariau neu drionglau. Edrychwch ar dai, ceir, teganau neu unrhyw beth arall.**

**Os edrychwch yn ofalus ar bethau, allwch chi weld unrhyw siapiau 3D fel sffêr, ciwboid, silindr neu byramid?**




Dewiswch eich hoff bethau i dynnu llun a dangos eu siâp.

**Gair o gyngor:** Trafodwch pam fod pethau'r siâp ydyn nhw - ydyn nhw'n ddefnyddiol neu ond yn addurn?





**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adnabod ac enwi siapiau 2D a 3D cyffredin, eu cysylltu i eitemau pob dydd ar wahanol ogwydd ac mewn gwahanol feintiau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Her gyrrwr trên

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae gan set drên bach un injan, pump o gerbydau glas a dau gerbyd coch. Mewn faint o wahanol ffyrdd y gellir trefnu'r cerbydau?**

Dyma un ffordd:



Allwch chi dynnu llun mwy o ffyrdd?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau drwy resymu a gweithio'n systematig, i ddod o hyd i'r holl bosibiliadau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Cyflwyno'r faner

Pecyn Mathemateg Teulu

**Pan fydd prosesiwn Cyflwyno'r Faner yn digwydd yn Llundain, mae'r gwarchodwyr i gyd yn martsio o flaen y Brenin. Mae cannoedd o warchodwyr a rhaid i bob un fod yn daclus yn ei res.**

Allwch chi ddod o hyd i deganau bach i'w rhoi mewn rhesi i'r Brenin gael edrych arnynt? Faint sydd ym mhob llinell? Allwch chi wneud pob llinell yr un fath? Faint sydd yna i gyd?

**Gair o gyngor:** Bydd llinellau o 10 yn ei gwneud yn haws cyfrif.

**Her:** Pe byddech yn warchodwr, faint o gamau y byddai'n ei gymryd i fartsio ar draws yr ystafell? Neu ar draws yr ardd?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cyfrif i ac ar draws 100: cyfrif pethau bob un 2; adnabod odrifau ac eilrifau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Cadw-mi-gei

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae cadw-mi-gei yn dal hyd at 10 darn o arian.**

Dim ond darnau 10c sydd yng nghadw-mi-gei Meirion – faint allai fod ganddo felly?

Dim ond darnau 5c y mae Siwan yn ei roi yn ei chadw-mi-gei – faint allai fod ganddi?

**Her:** Mae gan dad Meirion 5 darn o arian yn ei law – cymysgedd o ddarnau 2c, 5c a 10c – faint allai fod yn dal yn ei law felly?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cyfrif bob yn 2, 5 a 10; adnabod darnau o arian.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Rhannu lolis

Pecyn Mathemateg Teulu


**Yn y cwpwrdd mae bag o 6 loli oren a bag o 4 loli gwyrdd.**

Sut allai'r rhain gael eu rhannu'n deg rhwng 4 ffrind?

Allwch chi feddwl am ffordd arall?

**Her:** Pe bai dau o bob bag, a fyddai'n haws eu rhannu?

**Gair o gyngor:** Gallech ddefnyddio cownteri neu eitemau bach eraill fel fferins, neu dynnu lluniau i helpu plant i ddeall. Trafodwch fod rhannu'n gyfartal yn werthfawr.





**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Drwy rannu meintiau bach o bethau, dechrau deall lluosi a rhannu.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Rhannu picnic

Pecyn Mathemateg Teulu

**Meddyliwch am bicnic lle y bydd dau o blant yn rhannu pitsa'n gyfartal – beth fydd gan bob un?**


**Siaradwch am sut i rannu'r pitsa'n deg.**

**Beth am fowlen o domatos?**

**Bwnsiad o rawnwin?**

**Un afal?**

**Cacen?**



**Her:** Beth fyddai gennych chi yn eich picnic a allai gael ei rannu â ffrind?

Tynnwch lun i ddangos sut y gallai gael ei rannu.





**Sylwadau teulu:**

| |
|---|
| |

**Sylwadau plentyn:**

| |
|---|
| |

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adnabod, dod o hyd i, ac enwi hanner fel un o ddwy ran gyfartal; adnabod bod dau chwarter yr un fath â hanner.


Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk


**familymathstoolkit.org.uk**



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers


# Plygu papur

Pecyn Mathemateg Teulu

**Plygwch ddarn o bapur yn ei hanner.**



1. Yna plygwch o mewn gwahanol ffordd.
2. Beth sydd yr un fath? Beth sy'n wahanol? Pam?
3. Beth am blygu darn o bapur gwahanol faint?
4. Beth sy'n digwydd os plygwch y papur yn ei hanner ac yna'n hanner eto?



**Her:** Allwch chi dorri cylch a'i dorri yn ei hanner? Yna ei blygu yn ei hanner eto?

**Gair o gyngor:** Trafodwch y siapiau a wnewch yn defnyddio top, gwaelod, hanner, chwarter, chwith, dde, hirsgwar, sgwâr, triongl.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adnabod a chyfuno haneri a chwarteri fel rhannau o un cyfan.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Y dylwythen ddannedd


Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae'r dylwythen ddannedd wedi gadael 20c o dan eich gobennydd.**



Pa ddannedd allech chi fod wedi eu gadael iddi?

Allech chi fod wedi gadael mwy nag un dant?



| Incisor | Molar | Pre-molar | Canine |
|---|---|---|---|
| **20p** | **10p** | **5p** | **2p** |

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Gwybod beth yw gwerth darnau o arian; adio i 20.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Wythnos Pero'r ci

Pecyn Mathemateg Teulu

**Dyma un o wythnosau Pero.**



| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener | Dydd Sadwrn | Dydd Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynd am dro hir yn y coed. | Cael cinio blasus gyda darn o bysgodyn | Mynd i lawr i'r traeth | Cael bath | Wedi cnoi hoff bêl denis | Cael coler newydd | Wedi chwarae efo fy ffrind Mot |

Allwch chi ddangos beth ydych chi'n ei wneud pob diwrnod o'r wythnos? Pa un oedd eich hoff ddiwrnod? A oes unrhyw beth yr ydych yn ei wneud yr un diwrnod bob wythnos?

**Gair o gyngor:** Trafodwch y diwrnod wedyn; y diwrnod cynt; mewn dau ddiwrnod; pob dydd Mawrth; faint o ddiwrnodau rhwng dydd Llun a dydd Gwener.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Rhoi digwyddiadau amser mewn trefn a gwybod beth yw diwrnodau'r wythnos.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Faint o'r gloch ydy hi?

**Pecyn Mathemateg Teulu**

## Torrwch y clociau allan a'u rhoi mewn trefn.

Beth fyddwch chi efallai'n ei wneud ar yr amseroedd hyn?



**Her:** Siaradwch am amser wedi nos hefyd!

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Defnyddio iaith amser ac adnabod awr a hanner awr wedi.



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Cyfarwyddiadau


Pecyn Mathemateg Teulu


**Dychmygwch fod yn rhaid i robot fynd o'ch gwely i'r drws ffrynt. Nid yw'n gwybod pa ffordd i fynd!**

Meddyliwch am gyfarwyddiadau i'r robot – defnyddio geiriau fel faint o gamau, chwarter tro i'r dde, cerdded mewn llinell syth.

Wedyn ymarfer y 'llwybr' eich hun ac yna ar aelod o'r teulu.

Os ydyn nhw'n mynd y ffordd anghywir, efallai y bydd angen newid y cyfarwyddiadau neu ddefnyddio hanner tro i ddechrau eto.





Newidiwch le fel mai chi yw'r robot yn dilyn y cyfarwyddiadau. O ble ddaethoch chi ac i ble? Oedd o'n llwyddiannus?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Gwahaniaethu rhwng cylchdroi fel tro (¼ neu ½) a symud mewn llinell syth.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Pwdin hufen iâ iym-iym!

Pecyn Mathemateg Teulu

**Dewiswch eich 3 hoff flas hufen iâ.**

Lliwiwch sgŵps eich hoff flasau.




Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**


**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers


Rŵan cadwch yr un blasau ond eu lliw mewn gwahanol drefn... cofiwch, rydym i gyd eisiau i'n pwdinau hufen iâ edrych yn wahanol!











**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problem fathemategol, gweithio'n systematig ac egluro rhesymu.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers


# Atebion i Weithgareddau Bl.1

## Hwyl adio gyda mwncis

- 5 trwyn gwlyb
- 10 o glustiau bach
- 20 coes
- 5 cynffon gyrliog
- 20 coes
- 10 o lygaid bywiog
- 8 coes ar yr ochr







Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

# Atebion gweithgareddau'r Gwanwyn Bl.1

Pecyn Mathemateg Teulu

## Cywion adar

- 10
- 9 ffordd:

1 1 8
1 2 7
1 3 6
1 4 5


2 2 6
2 3 5

3 1 6
3 2 5
3 3 4



## Mathemateg drwy straeon traddodiadol

**1.** 10
**2**. 7
**3.** 14
**4.** 14
**5.** 10



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Atebion gweithgareddau'r Haf Bl.1

Pecyn Mathemateg Teulu

### Cadw-mi-gei

- Unrhyw luosrif o 10c
- Unrhyw luosrif o 5c



### Rhannu lolis

- 2 yr un o unrhyw liw (2 ar ôl)
- 1 gwyrdd ac 1 oren yr un (2 ar ôl)
- 2 ½ yr un
- Byddai – 5 yr un (3 oren a 2 gwyrdd)

### Y dylwythen ddannedd

- 1 dant blaen
- 2 dant malu
- 1 dant malu + 2 cilddant blaen
- 1 dant malu + 5 dant llygad
- 4 cilddant blaen
- 2 cilddant blaen + 5 dant llygad
- 10 dant llygad

Cyfanswm = mae 7 cyfuniad yn bosib – mae unrhyw un o'r cyfuniadau hyn yn gywir.



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers